**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

## CYNNWYS

*Gwahardd rasio milgwn*

1 Gwahardd rasio milgwn
2 Dehongli
3 Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

*Gorfodi*

4 Gorfodi'r gwaharddiad ar rasio milgwn

*Cyffredinol*

5 Dod i rym
6 Enw

Atodlen 1 - Troseddau gan gyrff corfforedig etc.
Atodlen 2 - Pwerau gorfodi

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Gwahardd rasio milgwn*

### 1 Gwahardd rasio milgwn

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw person—

(a) yn weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i fod yn ei ddefnyddio, neu dan wybod iddo yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio, i rasio milgwn, neu

(b) ynghlwm wrth drefnu rasio milgwn yng Nghymru.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

### 2 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr "rasio milgwn" yw cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu'n fecanyddol (ac mae hyn yn cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac);

(b) ystyr "gweithredwr" (mewn perthynas â stadiwm neu leoliad tebyg) yw—

(i) perchennog y stadiwm neu'r lleoliad;

(ii) y person, ac eithrio'r perchennog, sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y stadiwm neu'r lleoliad neu, os nad yw'r person hwnnw yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y stadiwm neu'r lleoliad.

### 3 Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau o dan adran 1 a gyflawnir gan gyrff corfforedig, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig ac eithrio partneriaethau.

*Gorfodi*

### 4 Gorfodi'r gwaharddiad ar rasio milgwn

Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi troseddau o dan adran 1.

*Cyffredinol*

**5 Dod i rym**

(1) Daw'r adran hon ac adran 6 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig, ond rhaid iddynt gael eu dwyn i rym ar ddiwrnod—

(a) nad yw cyn 1 Ebrill 2027, a

(b) nad yw ar ôl 1 Ebrill 2030.

**6 Enw**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026, neu

(b) the Prohibition of Greyhound Racing (Wales) Act 2026.

# ATODLEN 1

*(a gyflwynir gan adran 3)*

## TROSEDDAU GAN GYRFF CORFFOREDIG ETC.

*Cyflawni troseddau*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforedig;

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth.

(2) Mae person a grybwyllir yn is-baragraff (3) hefyd yn cyflawni'r drosedd os profir bod y drosedd—

(a) wedi ei chyflawni gan y person hwnnw, neu wedi ei chyflawni â chydsyniad neu ymoddefiad y person hwnnw, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y person hwnnw.

(3) Y personau yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforedig;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner yn y bartneriaeth;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, unrhyw swyddog o'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu.

(4) Yn is-baragraff (3)(a) ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau yw aelod o'r corff corfforedig.

(5) Yn y Ddeddf hon, ystyr "partneriaeth" yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890 (p. 39), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24).

*Achosion: partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig*

2 (1) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth i'w ddwyn yn enw'r bartneriaeth (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid).

(2) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth i'w ddwyn yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i haelodau).

(3) Mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforedig.

(4) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (p. 86) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

## ATODLEN 2
*(a gyflwynir gan adran 4)*

## PWERAU GORFODI

*Dehongli*

1 Yn yr Atodlen hon—

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodir yn arolygydd at ddibenion y Ddeddf hon gan—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu

(b) Gweinidogion Cymru;

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys cerbyd, ac mae cyfeiriad at feddiannydd mangre sy’n gerbyd yn gyfeiriad at y person yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y cerbyd;

ystyr “pŵer mynediad” (“*power of entry*”) yw pŵer mynediad a roddir i arolygydd gan—

(a) paragraff 2 (pŵer i fynd i fangreoedd ac eithrio anheddau), neu

(b) gwarant o dan baragraff 3 (gwarant i fynd i annedd).

*Pŵer i fynd i fangreoedd ac eithrio anheddau*

2 (1) Caiff arolygydd fynd i unrhyw fangre os oes gan yr arolygydd seiliau rhesymol dros amau—

(a) bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu

(b) y gellir dod o hyd i dystiolaeth yn y fangre fod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd.

*Gwarant i fynd i annedd*

3 (1) Ni chaniateir i arolygydd fynd i unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd oni bai—

(a) bod meddiannydd y fangre neu berson arall yr ymddengys i’r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre yn cydsynio, neu

(b) bod ynad heddwch wedi dyroddi gwarant, ar gais arolygydd, yn awdurdodi’r arolygydd i fynd i’r fangre.

(2) Caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ar lw ysgrifenedig—

(a) bod seiliau rhesymol dros amau—

(i) bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu

(ii) y gellir dod o hyd i dystiolaeth yn y fangre fod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni, a

(b) y cwrddir ag unrhyw un neu ragor o amodau 1, 2, 3 neu 4.

(3) Amod 1 yw bod—

(a) gofyn am fynd i'r fangre wedi ei wrthod neu'n debygol o gael ei wrthod, a

(b) hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i feddiannydd y fangre neu i berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre.

(4) Amod 2 yw y gallai gofyn am fynd i'r fangre neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan y paragraff hwn drechu diben mynd i'r fangre.

(5) Amod 3 yw bod y fangre heb ei meddiannu.

(6) Amod 4 yw—

(a) bod meddiannydd y fangre yn absennol dros dro, a

(b) y gallai aros i'r meddiannydd ddychwelyd drechu diben mynd i'r fangre.

4 Mae gwarant a ddyroddir o dan baragraff 3—

(a) yn awdurdodi mynd i'r fangre unwaith;

(b) yn un y mae rhaid iddi gael ei gweithredu o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddir.

*Mynd i fangre*

5 (1) Rhaid i arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad, ar gais person yn y fangre—

(a) dangos tystiolaeth o bwy yw'r arolygydd, a

(b) amlinellu diben arfer y pŵer.

(2) Pan fo arolygydd yn mynd i fangre o dan warant a ddyroddwyd o dan baragraff 3, rhaid i'r arolygydd hefyd—

(a) dangos copi o'r warant, os gofynnir iddo wneud hynny gan berson yn y fangre, a

(b) rhoi copi o'r warant i feddiannydd yr eiddo neu berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre os gofynnir iddo wneud hynny gan y person hwnnw.

(3) Os nad yw'r meddiannydd na pherson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre yn bresennol—

(a) rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg yn y fangre, a

(b) wrth adael y fangre, rhaid i'r arolygydd ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag y'i cafwyd gan yr arolygydd.

6 Rhaid i arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad wneud hynny ar adeg resymol oni fydd yn ymddangos i'r arolygydd y byddai diben cael mynediad wedi ei lesteirio gan fynediad ar adeg resymol.

7 Caiff arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad ddefnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre os yw'n angenrheidiol.

8 Caiff arolygydd sy’n arfer pŵer mynediad—

(a) mynd ag unrhyw bersonau eraill i’r fangre yr ymddengys i’r arolygydd ei bod yn briodol mynd â hwy, a

(b) mynd ag unrhyw gyfarpar a deunyddiau i’r fangre yr ymddengys i'r arolygydd ei bod yn briodol mynd â hwy.

*Pwerau arolygu etc.*

9 Caiff arolygydd sy’n arfer pŵer mynediad—

(a) chwilio’r fangre;

(b) holi unrhyw berson yn y fangre;

(c) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre roi cymorth i’r arolygydd y gall fod yn rhesymol ofynnol gan yr arolygydd;

(d) tynnu ffotograff neu wneud fideo o unrhyw beth y deuir o hyd iddo yn y fangre;

(e) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre ddangos unrhyw ddogfen neu gofnod ym mha ffurf bynnag y’i delir sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y person;

(f) cymryd copïau o unrhyw ddogfen neu gofnod, neu gymryd darnau o unrhyw ddogfen neu gofnod, y deuir o hyd iddi neu iddo ar ba ffurf bynnag y’i delir;

(g) ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth a gedwir ar ffurf electronig ac y gellir cael gafael arni o’r fangre gael ei chyflwyno ar ffurf y gellir mynd â hi ymaith ac sydd yn ei gwneud yn weladwy ac yn ddarllenadwy, neu y gellir ei chyflwyno ar ffurf weladwy a darllenadwy yn hawdd ohoni;

(h) ymafael yn unrhyw eitem, ac eithrio ci, y deuir o hyd iddi yn y fangre ac y mae’r arolygydd yn credu’n rhesymol sy’n dystiolaeth o gyflawni trosedd o dan adran 1.

10 Caiff person yr eir ag ef i’r fangre o dan baragraff 8(a) arfer unrhyw bŵer a roddir i arolygydd gan baragraff 9 os yw’r person o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.

*Pŵer ymafael: atodol*

11 (1) Caniateir cadw unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan baragraff 9(h) am gyhyd ag y bo angen.

(2) Rhaid i berson sy’n ymafael yn unrhyw beth o dan baragraff 9(h)—

(a) cadw cofnod o’r eitem yr ymafaelwyd ynddi, a

(b) darparu cofnod o’r eitem yr ymafaelwyd ynddi os gofynnir iddo wneud hynny gan berson a oedd yn meddiannu’r fangre ar yr adeg yr ymafaelwyd yn yr eitem, neu a oedd â’r eitem yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn union cyn yr ymafaelwyd ynddi.

(3) Nid yw paragraff 9(h) yn cynnwys pŵer i ymafael yn unrhyw eitem y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol yn ei chylch mewn achosion cyfreithiol.

*Rhwystro etc.*

12 (1) Mae person yn cyflawni trosedd—

(a) os yw'r person heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio â gofyniad am gymorth a wneir yn rhesymol o dan baragraff 9(c);

(b) os yw'r person yn rhwystro yn fwriadol berson arall wrth iddo arfer swyddogaeth o dan yr Atodlen hon.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

*Atebolrwydd arolygwyr*

13 (1) Nid yw arolygydd yn atebol mewn unrhyw achos sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir wrth honni cyflawni swyddogaethau'r arolygydd o dan yr Atodlen hon os yw'r llys wedi ei fodloni y cyflawnwyd y weithred yn ddidwyll a bod seiliau rhesymol dros ei chyflawni.

(2) Mae is-baragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson y mae arolygydd yn mynd ag ef i fangre o dan baragraff 8(a) fel y mae'n gymwys i arolygydd os yw'r person o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.